CYMRY CYMRAEG A DYSGWYR AR Y CYD
WELSH LEARNERS AND FLUENT SPEAKERS TOGETHER

10 Maes Lowri, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AU
e-bost: cyd@aber.ac.uk www.cyd.org.uk

25 Chwefror 2008

At Ganghennau Cyd

Annwyl Gyfeillion

Fel y gwyddoch, yn dilyn penderfyniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddiwedd 2006 i derfynu grant Cyd, mae dyfodol Cyd fel mudiad cenedlaethol yn y fantol. Gobeithio eich bod wedi gweld y llythyr a anfonais at gefnogwyr Cyd yn ddiweddar, a oedd yn rhoi esboniad o'r sefyllfa ar y pryd. (Amgaeaf gopi ychwanegol er gwybodaeth).

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr ar 21ain o Chwefror, ac ar ôl trafodaeth hir, penderfynwyd dod â Cyd fel elusen a mudiad cenedlaethol i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2008.

OND – bydd gwaith a gweithgareddau Cyd yn parhau!

O'r 1af o Ebrill 2008 ymlaen, bydd pob cangen Cyd yn troi'n grŵp annibynnol, gyda'r hawl i ddefnyddio enw a logo Cyd.

Mae'n amlwg wrth drafod hyn gyda nifer o bobl bod yr angen am y math o beth y mae grwpiau Cyd yn ei wneud yn parhau, mor gryf ag erioed. Nid peth hawdd yw croesi'r bont o fod yn ddysgwr mewn dosbarth i fod yn berson sy'n defnyddio'r iaith yn naturiol yn y gymuned fel rhan o fywyd bob dydd - a hwyluso hyn yw nod Cyd a phawb sydd eisiau gweld dyfodol cryf i'r iaith. Felly mae'n bwysig iawn bod grwpiau Cyd yn parhau gyda'u gwaith.

Trosglwyddwyd cyllideb Cyd gan BIG i'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion, er mwyn iddyn nhw gymryd y gwaith drosodd, ac ymgymryd â darparu 'dysgu anffurfiol'. Rydym yn eich annog i gysylltu â'ch Canolfan leol a gofyn iddyn nhw pa gymorth a chefnogaeth (ariannol neu ymarferol) maent yn fodlon ei gynnig i chi i'ch helpu chi gyda'ch gweithgareddau.

Un pwynt pwysig yw yswiriant. Mae Cyd wedi trefnu yswiriant atebolrwydd ar gyfer gweithgareddau canghennau Cyd ers blynyddoedd. Mae'r polisi yn dod i ben ar ddiwedd mis Chwefror 2008. Yn wreiddiol roeddem yn gobeithio y byddai modd parhau gyda hwn am flwyddyn arall, ond gan fod y pris mor uchel (£1600) does dim modd i ni wneud hyn, felly rhaid i'r canghennau/grwpiau gymryd cyfrifoldeb am yswirio eu hunain ar ôl diwedd y mis. Efallai bod hyn yn rhywbeth y gallwch drafod gyda'ch Canolfan Cymraeg i Oedolion leol.

Bydd gwefan Cyd (http://www.cyd.org.uk) yn parhau i fodoli, fel adnawdd i grwpiau a dysgwyr unigol. Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol arni : nodiadau ar sut i drefnu grŵp Cyd, sut i redeg Cynllun Pontio, awgrymiadau am weithgareddau, ac archif

lawn Cadwyn Cyd. Hefyd mae rhestr grwpiau Cyd a chysylltiadau lleol arni, sy'n help mawr i aelodau newydd ddod o hyd i grŵp lleol. A wnewch chi edrych ar y wefan a rhoi gwybod i'r Trysorydd (cyn diwedd mis Mawrth) a yw'r manylion am eich grŵp yn gywir ai peidio? Os na chlywn ni gennych byddwn ni'n dileu manylion eich grŵp oddi ar y wefan.

Ar ôl talu biliau, bydd tipyn o arian ar ôl gan Cyd ar ddiwedd mis Mawrth. Penderfynwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol y byddai unrhyw arian a fyddai ar ôl pan ddeuai Cyd i ben yn mynd i Gronfa Dan Lynn James. Cyn hynny mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon ystyried ceisiadau gan grwpiau lleol am gyfraniad at brosiectau arbennig y carai grwpiau ymgymryd â hwy. Anfonwch geisiadau at y Trysorydd i'r cyfeiriad uchod.

Pob lwc yn y dyfodol

Nigel A Callaghan

Cadeirydd Cyd, ar ran yr Ymddiriedolwyr.